



Rydym yn cefnogi pobl  
a chymunedau i ffynnu.

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

We support people and  
communities to thrive.

The National Lottery Community Fund



## DATGANIAD I'R WASG

### LANSIO CRONFA GYMUNEDOL Y LOTERI GENEDLAETHOL: CYNHWYSIANT DIGIDOL – BYWYD AR ÔL COVID

1 Chwefror 2022

#### Cyfeillgarwch yn y Cyfnodau Clo

*“Bu’r cyfnodau clo yn anodd iawn. Fe newidiodd popeth yr oeddwn yn arfer ei wybod ac roeddwn yn wirioneddol yn colli mynd allan a gweld fy ffrindiau. Digwyddodd cymaint dros y Nadolig – buom yn canu caneuon, a bwyta bwyd da. Roeddwn wrth fy modd gyda’r panto. Gwnaeth Julie yn siŵr y gallwn fynd, ei fod yn ddiogel – ond rwy’n poeni am y cyfyngiadau newydd. A fyddaf i’n dal i fedru gweld fy ffrindiau?”*

Mae’r cyfyngiadau parhaus a achosir gan Covid-19 yn effeithio’n neilltuol ar Oedolion gydag Anableddau Dysgu. Yn Drive, rydym yn ymroddedig i sicrhau fod y bobl a gefnogwn yn byw eu bywydau i’r llawnaf, gan wneud y pethau y dymunant eu gwneud, gyda’r bobl y maent eisiau gwneud hynny. Mae ein staff ymroddedig yn darparu cefnogaeth wych, gan sicrhau fod oedolion gydag anableddau dysgu yn cymryd rhan yn eu cymunedau lleol.

Rydym yn ddiolchgar i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth dros y tair blynedd nesaf i helpu Drive wynebu’r heriau a gafodd eu creu gan y pandemig Coronafeirws. Bydd y grant hwn yn galluogi Drive i fynd i’r afael â’r effaith a gafodd cyfyngiadau cyfredol y cyfnod clo ar les meddwl y bobl a gefnogwn, gan gyfyngu mynediad i weithgareddau grŵp a tharfau ar y drefn arferol. Bydd y cymorth hwn yn ein galluogi i weithredu mesurau diogel i ail-gysylltu pobl wrth i bethau barhau i newid.

Bydd y bobl a gefnogwn yn cael llais blaenllaw yn ein holl benderfyniadau, gan ddewis y mathau o weithgareddau a’n helpu i ddeall beth sy’n gweithio a’r hyn nad yw’n gweithio wrth i ni ymchwilio sut y gall technoleg helpu pobl i gysylltu gyda hen ffrindiau a chanfod ffyrdd diogel o wneud ffrindiau newydd. Byddwn hefyd yn ymchwilio sut y gallwn ddefnyddio technoleg ddigidol i gofnodi canlyniadau a straeon cadarnhaol i ehangu cyfleoedd bywyd. Gwahoddwn bobl newydd – artistiaid, cerddorion, hyfforddwyrr ffitrwydd, ymarferwyr ymwybyddiaeth ofalgar – i ymchwilio ffyrdd newydd o gyflwyno sesiynau gyda ni. A phan fydd cyfyngiadau yn llacio, byddwn yn cynyddu’r cyfleoedd drwy bartneriaeth mewn gofodau a gaiff eu rhannu – dan do, awyr agored – gan ymchwilio’r byd eto a herio ein hunain i roi cynnig ar bethau newydd.

Mae’n gyffrous lansio’r prosiect hwn gan rannu fideos i gofio’r pethau a wnaethom dros y Nadolig, wrth i ni ddechrau ar gamau cyntaf yr ymchwilio y mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi’n galluogi i wneud: Cynhwysiant Digidol – Bywyd ar ôl Covid.